# Taflen wybodaeth cyfranogwr: Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol
# Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr

## Beth yw nod a diben y grŵp ymgynghorol hwn?

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn datblygu adnoddau i rieni/gofalwyr, nod y grŵp ymgynghorol hwn yw diweddaru, nodi a datblygu adnoddau.

Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau bod yr hyn a ddatblygir yn ddefnyddiol ac yn bodloni anghenion.

## Pwy all gymryd rhan yn y grŵp ymgynghorol hwn?

Y rhai sy'n gallu cymryd rhan yn y grŵp ymgynghorol hwn yw:

- Rhieni/gofalwyr (sy'n byw yng Nghymru) sydd â phlentyn neu oedolyn niwrowahanol

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Bydd y grŵp ymgynghorol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein a gynhelir ar Microsoft Teams (os nad ydych yn gyfarwydd â MS Teams, byddwn yn cynnwys canllaw ar sut i'w ddefnyddio).

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu hyrwyddo gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.

Bydd y grwpiau ymgynghorol ar-lein yn gyfres o drafodaethau rhannol-strwythuredig. Bydd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn awgrymu rhai pwyntiau ar y rhaglen cyn y cyfarfod. Mae'n bwysig fod y trafodaethau hyn yn cael eu harwain gan rieni/gofalwyr. Fodd bynnag, byddwn angen rhaglen fel canllaw er mwyn i ni strwythuro'r cyfarfod a chadw at amserlen.

Bydd trafodaethau ar-lein y grŵp ymgynghorol yn canolbwyntio ar ba adnoddau fyddai rhieni/gofalwyr yn elwa ohonynt. Gallai hyn olygu siarad am eich profiadau personol o rianta neu rwystrau yr ydych wedi'u hwynebu, os ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hyn. Bydd y grŵp ymgynghorol yn lle diogel a bydd popeth a drafodir yn y grŵp yn gyfrinachol ac yn cael ei drin yn sensitif.

Byddwn yn darparu amlinelliad o'r rheolau sydd angen i gyfranogwyr eu dilyn yn ystod y cyfarfod.

## Faint o amser fydd ei angen?

Bydd un cyfarfod bob mis. Bydd cyfanswm o oddeutu 6 cyfarfod yn cael eu cynnal i ddechrau.  Gallwch fynychu cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch neu ag y gallwch.

Bydd dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd yn cael eu cadarnhau.

Bydd y cyfarfodydd yn para am 1-2 awr.

## Sut y diolchir i mi am fy ngwaith?

Fe ddiolchir i'r holl gyfranogwyr am gymryd rhan gyda thaleb Love2Shop ar gyfer pob cyfarfod. Gellir defnyddio'r talebau hyn mewn siopau stryd fawr penodol a byddant yn cael eu hanfon i'r cyfranogwyr ar e-bost.

## Sut ddylwn ddweud wrthych yr hoffwn gymryd rhan?

Os hoffech fod yn rhan o'r grŵp ymgynghorol hwn, rhowch eich cyfeiriad e-bost ar y ffurflen Google sydd ar gael trwy’r ddolen hon: https://forms.gle/wmFd5miAPtGbdFMm7

Yna byddwn yn anfon e-bost atoch gyda gwahoddiad calendr, dolen at y cyfarfod grŵp ymgynghorol a rhaglen o leiaf pythefnos cyn dyddiad cyfarfod y grŵp ymgynghorol.